25/01/11

CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR OMBWDSMAN CYFREITHIOL CYNLLUN YMGYNGHORI

Mae'r Ombwdsman Cyfreithiol yn bwriadu ymgynghori mor eang â sy'n bosibl ynghylch ei Gynllun Iaith Gymraeg drafft. Rydyn ni eisiau hybu sylwadau a thrafodaeth oddi wrth ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach ac, ar ôl derbyn sylwadau, baratoi adroddiad a gyflwynir â'r cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gael ei gymeradwyo.

Bydd y cyfnod o ymgynghori'n parhau o 3 Chwefror 2011 i 31 Mawrth 2011

Bydd yr ymgynghori'n digwydd drwy'r dulliau dilynol:

1. Gosodir yr ymgynghori ar wefan yr Ombwdsman Cyfreithiol yn unol ag arfer yr Ombwdsman Cyfreithiol ac anfonir hysbysiad i'n rhanddeiliaid sy'n awgrymu sut y gellir cael mynediad iddo. Bydd hyn yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol
- Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cymdeithas y Gyfraith
- Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
- Cyngor y Bar
- Bwrdd Safonau'r Bar
- Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol
- Bwrdd Safonau Proffesiynol ILEX
- Cyngor y Trosglwyddwyr Eiddo Trwyddedig
- Sefydliad Siartredig yr Atwrneiod Patent

LEGAL OMBUDSMAN

- Bwrdd Rheoleiddio Eiddo Deallusol
- Cymdeithas y Drafftwyr Costau Cyfreithiol
- Meistr y Cyfadrannau
- Which?
- Canolfan Cyngor ar Bopeth
- Comisiwn Cwynion Cyfreithiol Yr Alban
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Llais Defnyddwyr
- Gwasanaeth yr Ombwdsman Ariannol
- Ombwdsman Llywodraeth Leol
- Ombwdsman Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd
- Cymdeithas Ombwdsman Prydain ac Iwerddon

2. Cyfarwyddir rhanddeiliaid i anfon hysbysiad i'w haelodau yng Nghymru.

3. Hefyd anfonir copïau dwyieithog o'r cynllun drafft mewn fformat electronig i'r cyrff dilynol:

- EHRC – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- Plaid Cymru
- Y Ganolfan Cynllunio Iaith
- Cynulliad Cymru
- Cymdeithas y Gyfraith Cymru
- Llais Defnyddwyr Cymru
- Cylchdaith Bargyfreithwyr Cymru a Chaer

Ni fwriedir y rhestr hon i fod yn drylwyr nag yn unigryw a chroesawir ymatebion oddi wrth unrhyw berson sydd â diddordeb neu sydd â barn ar y testun a drafodir gan y papur hwn.

4. Cyhoeddir y cynllun drafft mewn fformat dwyieithog ar y gwefannau dilynol:

www.legalombudsman.org.uk

www.byig-wlb.org.uk

5. Bydd copïau o'r cynllun ar gael naill ai drwy e-bost neu drwy gopi caled ar gais trwy gysylltu â'n tîm Materion Allanol gan ddefnyddio'r manylion cysylltu isod.

Gofynnir i sylwadau gael eu hanfon i'n tîm Materion Allanol. Byddai'n well gennym dderbyn ymatebion ar ffurf electronig (mewn fformat Microsoft Word), ond croesawir ymatebion copi caled drwy'r post neu drwy ffacs hefyd.

Dylid anfon ymatebion i:

E-bost: consultations@legalombudsman.org.uk

Post: Janet Edwards

Legal Ombudsman

PO Box 15871

BIRMINGHAM

B30 9ED

Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan, oni bai y bydd ymatebydd yn gofyn yn benodol fod rhan benodol o'r ymateb neu'r holl ymateb yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Byddwn ni'n cofnodi hunaniaeth yr ymatebydd a'r ffaith ei fod wedi cyflwyno ymateb gyfrinachol yn ein crynodeb o ymatebion.

Cynhelir copi o'r holl sylwadau ac fe'i ddefnyddir i helpu hysbysu'r cynllun terfynol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ôl 31 Mawrth 2011 i gael ei gymeradwyo ac i gael ei gyhoeddi erbyn 12 Mai 2011.

LEGAL OMBUDSMAN

Cwestiynau:

1. **Cyflwyniad – bwriadau'r cynllun**

   Ydych chi'n cytuno â bwriadau datganedig y cynllun?

   Ydw

   Nac ydw

   Os gwelwch yn dda, gwnewch unrhyw sylwadau ar fwriadau'r cynllun fel a amlinellir yn y cyflwyniad.

2. **Cyflwyno a chyflawni gwasanaethau – agwedd gyffredinol**

   Ydych chi'n cytuno â'r agwedd gyffredinol rydyn ni'n ei chymryd tuag at gynllunio gwasanaethau a chyflawni'r cynllun?

   Ydw

   Nac ydw

   Os gwelwch yn dda, gwnewch unrhyw sylwadau ar agwedd gyffredinol arfaethedig yr Ombwdsman Cyfreithiol tuag at gynllunio gwasanaethau a'u cyflawni.

3. **Cyflawni gwasanaethau yng Nghymru**

   Ydych chi'n cytuno â'r agwedd rydyn ni'n ei chymryd tuag at gyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru?

   Ydw

   Nac ydw

   Os gwelwch yn dda, gwnewch unrhyw sylwadau ar agwedd arfaethedig yr Ombwdsman tuag at gyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

4. **Recriwtio a staffio**

   Ydych chi'n cytuno ag adran recriwtio a staffio'r cynllun?

   Ydw

   Nac ydw

   Os gwelwch yn dda, gwnewch unrhyw sylwadau ar y ffordd mae'r Ombwdsman Cyfreithiol yn cynnig sicrhau bod ein prosesau recriwtio'n ystyried y defnydd o'r iaith Gymraeg

5. **Gweithredu, monitro a chyhoeddi'r cynllun**

Os gwelwch yn dda, gwnewch unrhyw sylwadau ar y ffordd mae'r Ombwdsman yn cynnig gweithredu, monitro a chyhoeddi'r cynllun.

6. Sylwadau eraill

Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn cysylltiad â'r cynllun, datganwch y rhain isod os gwelwch yn dda.

7. Amserlen

Rydyn ni'n gweithio tuag at yr amserlen ymgynghori ddilynol:

Amserlen	**Ymgysylltiad**
3 Chwefror 2011	Cyhoeddi'r ymgynghoriad
31 Mawrth 2011	Terfyn amser ar gyfer ymatebion
14 Ebrill 2011	Cyhoeddi'r ymatebion a dderbyniwyd
12 Mai 2011	Cyhoeddi'r cynllun terfynol

Os gwelwch yn dda, anfonwch eich ymatebion, wedi'u marcio er sylw Janet Edwards, i:

consultations@legalombudsman.org.uk erbyn Mawrth 31 2011

LEGAL OMBUDSMAN